# Y Pwyllgor Deisebau

## "PET(3)03-08 (p7): 21 Chwefror 2008"

## "Cyfeirnod y ddeiseb P-03-067: Tir y 'Miner's Welfare', Ty-Du, Nelson"

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi'r ddeiseb hon ac sy'n byw ym mhentref Nelson, yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw ddatblygiad ar y safle uchod gan yr Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau. Cafodd Awdurdod Datblygu Cymru'r safle 7.5 erw gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a oedd wedi'i brynu ar ran yr Awdurdod oddi wrth yr ymddiriedolwyr, heb yn wybod i'r cyn-lowyr lleol, am bris chwerthinllyd o isel. Nid cyn-lowyr oedd yr ymddiriedolwyr hyn ond cyn-gynghorwyr dosbarth lleol.

Mae'r tir hwn bellach yn eiddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru a gofynnwn iddi ddychwelyd tir y 'Welfare', sydd bellach yn ardal wledig agored sy'n llawn harddwch naturiol, coed hynafol, coetir, gwrychoedd a bywyd gwyllt amrywiol, i eiddo trigolion y pentref i'w ddefnyddio gennym ni a chenedlaethau i ddod. Dyna oedd bwriad y glowyr lleol pan fu iddynt brynu'r tir hwn a thalu amdano. Rydym eisoes wedi cyflwyno deiseb i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n galw arno i hepgor y tir o'i Gynllun Datblygu Lleol.

### Diben

Ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

### Cefndir

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod ar 20 Medi 2007. Derbyniodd bapur gan wasanaeth cyfreithiol Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad ar 22 Tachwedd 2007, a chytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

Derbyniodd y Cadeirydd ymateb gan y Gweinidog ar 10 Chwefror 2008. Mae copi o'r llythyr hwn i'w weld fel Atodiad A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

Chwefror 2008